

## HYSBYSEB SWYDD

### Pennaeth Cydysgrifenyddiaeth Cyngor Partneriaeth y Gweithlu

<b>Band Cyflog:</b>	Cyferwerth â Band EB1 y Gwasanaeth Sifil £61,000 - £71,000 (Dros dro os yw'r ymgeisydd llwyddiannus yn Fand EB2 y Gwasanaeth Sifil yn Llywodraeth Cymru)
<b>Lleoliad:</b> Ystyriwch a ellid gwneud y swydd hon ar sail Cymru gyfan neu mewn mwy nag un lleoliad	O fewn ôl-troed yr Ystad Gyhoeddus yn ardal Caerdydd
<b>Hyd y swydd os yn swydd dros dro:</b>	2 flynedd (gyda chyfle posibl am estyniad): naill ai <ul style="list-style-type: none"><li>• Secondiad; neu</li><li>• penodiad a wnaed gan y cyn-gyflogwr</li></ul> Trefniadau i'w trafod ar ôl penodi
<b>Patrwm gwaith:</b>	Llawn amser, ond ar gael i ymgeiswyr sydd am weithio'n rhan-amser ar sail rhannu'r swydd
<b>Dyddiad cau:</b>	Dydd Gwener 29ain Mehefin 2018
<b>Enw a manylion cyswllt:</b>	I'w gwblhau gan Undebau Llafur/ Cyflogwr/ Llywodraeth Cymru

<b>Pwrpas y swydd:</b>
<b>Cefndir</b> <p>Mae Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yn strwythur partneriaeth cymdeithasol thri phartner rhwng Undebau Llafur/ Cyflogwyr/ Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys y gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Mae partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru yn ffordd o weithio, yn gyfres o ymddygiadau y mae pob partner yn ymrwymo i gydymffurfio â nhw er mwyn cefnogi ein gweithlu gwasanaeth cyhoeddus ymroddgar i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cadarn ac effeithiol. Mae'n rhan o'r dull partneriaeth gymdeithasol troswaol a fabwysiadir yng Nghymru.</p> <p>Mae Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yn gweithredu mewn partneriaeth gyfartal rhwng Llywodraeth Cymru, Cyflogwyr ac Undebau Llafur - gan barchu sofraniaeth a strwythur gwneud penderfyniadau pob partner. Mae sofraniaeth, trefniadau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd yn amrywio rhwng y 3 partner a rhwng ac maen nhw'n amrywio gan y naill a'r llall.</p> <p>Yn dilyn adolygiad diweddar o Gyngor Partneriaeth y Gweithlu, sefydlwyd Cydbwyllgor</p>

Gweithredol. Ei ddiben yw hwyluso gwaith Cyngor Partneriaeth y Gweithlu, mewn ymgynghoriad â chyrff cynrychiadol. Mae'r Cydbwyllgor Gweithredol yn atebol i Gyngor Partneriaeth y Gweithlu a bydd yn cael ei gefnogi gan Gydysgrifenyddiaeth.

## Y RÔL

Bydd Pennaeth y Gydysgrifenyddiaeth yn arwain tîm bach o 4, wedi'u dethol o'r Undebau Llafur, cyflogwyr y sector cyhoeddus a Llywodraeth Cymru, i gefnogi gwaith y Cydbwyllgor Gweithredol ar ran y strwythur tri phartner. Bydd yn atebol i'r cydbwyllgor, ymysg pethau eraill am:

- I. swyddogaethau ysgrifenyddiaeth safonol, gan gynnwys agendâu, papurau a chofnodion Cydbwyllgor Gweithredol Cyngor Partneriaeth y Gweithlu a chyfarfodydd llawn Cyngor Partneriaeth y Gweithlu.
- II. darparu'r rhaglen waith y cytunwyd arni gyda Chyngor Partneriaeth y Gweithlu, gan gynnwys ymgysylltu'n rhyngweithiol â phartion â budd ac arbenigwyr mewn sectorau perthnasol, rhanbarthau neu sefydliadau unigol;
- III. hysbysu'r Cydbwyllgor Gweithredol o amseroedd paratoi a mecanweithiau ar gyfer sicrhau cytundeb ar draws y partneriaid cymdeithasol.

Bydd y Gydysgrifenyddiaeth yn atebol i'r Cydbwyllgor Gweithredol am y gweithgareddau a gyflawnir gan y tîm. Bydd trefniadau rheoli llinell ffurfiol yn dibynnu ar natur y penodiad (secondiad ac ati).

Bydd deiliad y swydd yn arweinydd a chydweithiwr profiadol gyda'r gallu i weithio ar draws ystod eang o randdeiliaid i roi agenda, a all fod yn gymhleth, ar waith o fewn amserlenni tynn ac i ansawdd uchel. Bydd ganddo/i brofiad o faterion gweithlu'r sector cyhoeddus, ac yn sensitif iawn i'r amgylchedd y bydd yn gweithio ynddo.

## Prif dasgau:

- Derbyn cyfarwyddiadau gan y Cydbwyllgor Gweithredol, a bod yn atebol iddo, am roi rhaglen waith y cytunir arni ar waith, gan gynnwys, er enghraifft, datblygu gweledigaeth strategol ar gyfer symudiadau staff ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gan gydnabod bod darpariaeth y rhaglen hon yn dibynnu ar ymgysylltiad o ddifrif partneriaid cymdeithasol.
- Cefnogi'r gwaith o ddrafftio'r rhaglen waith a chyd-lunio papurau i'r Cydbwyllgor Gweithredol a Chyngor Partneriaeth y Gweithlu fel y gallant eu hystyried a chytuno arnynt.
- Cefnogi Cyngor Partneriaeth y Gweithlu i sicrhau a monitro gweithrediad cytundebau'r Cyngor â phartneriaid.
- Datblygu cysylltiadau gwaith da ledled y sector cyhoeddus, yr Undebau Llafur a Llywodraeth Cymru, gan barchu natur tri phartner y gwaith a'r atebolrwydd a threfniadau llywodraethu penodol ar gyfer y partneriaid yng Nghyngor Partneriaeth y Gweithlu.
- Ysgwyddo cyfrifoldeb am ddarpariaeth y rhaglen waith o fewn cwmpas y Gydysgrifenyddiaeth, i'r safonau sy'n ofynnol gan y Cydbwyllgor Gweithredol.
- Rheoli'r heriau cymhleth a sicrhau bod y Cydbwyllgor Gweithredol yn derbyn cyngor penodol a phriodol i'w alluogi i gefnogi partneriaid a Chyngor Partneriaeth y Gweithlu yn ei

gyfanrwydd.

- Arwain tîm bach o staff o bob rhan o'r cytundeb tairochrog.

### **Gofynion Iaith Gymraeg:**

Mae sgiliau'r Gymraeg yn ddymunol.

### **Cymwyseddau**

1. Arwain a Chyfathrebu – Egluro strategaethau a chynlluniau, cyfathrebu diben a chyfeiriad yn glir a gyda brwdfrydedd
2. Newid a Gwella - Casglu, defnyddio a rhannu barn a safbwyntiau cwsmeriaid yn effeithiol gan randdeiliaid amrywiol er mwyn sicrhau gwell polisi a darpariaeth
3. Rheoli gwasanaeth o ansawdd - Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a diogelwch wrth ddarparu gwasanaethau a chynnwys amrywiaeth ac ystyriaethau cydraddoldeb ymhob cynllun
4. Cyflawni'n Ddi-oed – Cynnal perfformiad effeithiol dan amgylchiadau anodd o bryd i'w gilydd, gan annog eraill i wneud yr un fath

### **Meini Prawf Penodol i'r Swydd**

- 1 Tystiolaeth o arwain a grymuso tîm, i sicrhau ansawdd uchel a chysondeb, mewn amgylchedd cymhleth sy'n gallu bod yn heriol weithiau.
2. Tystiolaeth o hyder a gwydnwch wrth reoli rhaglenni gwaith cymhleth a chyflawni o fewn amserlenni y cytunir arnynt, gyda phrofiad a dealltwriaeth o amgylchedd y gwasanaeth cyhoeddus.
3. Tystiolaeth o allu i gydweithio â rhanddeiliaid amrywiol i ystyried effaith ddilynol rhoi newid ar waith.